Datganiadau Corfforaethol ar gyfer y Wefan

Datganiad ar gyfer y Gymraeg

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC) wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal, a sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir yn bodloni gofynion y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys Deddf yr Iaith Gymraeg (1993), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018.

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC) yn aelod o Bwyllgor y Gymraeg BIPCTM, sy'n gyfrifol am arwain ac annog gweithredu a chyflawni cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol yr Iaith Gymraeg ar draws y Bwrdd Iechyd a'r sefydliadau a gynhelir. Mae'n is-bwyllgor y Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Ei ddiben yw cefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau, yn unol â Safonau'r Gymraeg, er mwyn gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau trwy ddarparu gofal a chymorth dwyieithog.